Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch

Cyfarfod Bwrdd y Cyfarwyddwyr

10 Rhagfyr 2025, ar MS Teams

Yn bresennol

Aelodau'r Bwrdd

Rachid Hourizi (yn cadeirio'r cyfarfod)
Jimena Alamo
Nic Beech
Nicky Callow
Caroline Carter
Fazal Dad
Phil Deans
Alex Fraser
Odette Hutchinson
Lucy Jones
Richard Kaldhi
Karl Leydecker
Mirjam Plantinga
Dani Saghafi
Peter Vermeulen

Swyddogion

Vicki Stott (Prif Weithredwr)
Tom Yates (Cyfarwyddwr Gweithredol Materion Corfforaethol)
Caroline Blackburn (Prif Swyddog Gweithredol a Chyllid)
Rob Stroud (Cyfarwyddwr Gweithredol Sicrhau Ansawdd a Gwelliant)
Rachel Hill-Kelly (Ysgrifennydd Cynorthwyol y Cwmni)

Croeso, ymddiheuriadau a sylwadau agoriadol y Cadeirydd

1. Croesawodd Rachid Hourizi yr aelodau i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Christian Brodie, Alex Stanley a Moira Fischbacher-Smith.

Cworwm a Buddiannau (Eitem 2)

2. Cyhoeddwyd bod y cyfarfod yn cyrraedd y cworwm. Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau pellach.

Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2025 a Materion yn Codi o'r Cofnodion (Eitem 3, BD-25-26-13) a Nodyn o Ddiwrnod Cwrdd-i-Ffwrdd y Bwrdd ar 24 Hydref 2025 (BD-25-26-14)

3. Roedd yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau, ac ymdriniwyd â materion eraill a gododd mewn mannau eraill yn y papurau.

4. **Cymeradwywyd** y cofnodion fel cofnod cywir.

5. Cymeradwyodd y Bwrdd y nodyn o'r diwrnod cwrdd-i-ffwrdd.

Adroddiad y Prif Weithredwr ac adroddiad ar ddatblygiadau polisi a rhyngweithiadau â chyllidwyr a rheoleiddwyr yng ngwledydd y DU (Eitem 4 BD-25-26-15)

6. Rhannodd Vicki Stott y wybodaeth ddiweddaraf am staffio tîm y Pwyllgor Gwaith. [wedi'i olygu]

7. Roedd cynllun ar waith i reoli'r tîm Datblygu Busnes ac Ymgysylltu [wedi'i olygu]. Byddai Caroline Blackburn yn cymryd cyfrifoldeb am reolaeth llinell. Roedd Wendy Harbutt, ymgynghorydd â phrofiad hir o QAA, wedi cael ei phenodi i weithio ochr-yn-ochr â'r tîm Digidol, Marchnata a Chyfathrebu, er mwyn asesu'r galw gan yr asiantaeth, i helpu â sicrhau cydlyniad strategol o ddisgwyliadau, ac i gynorthwyo â chynllunio cyflawni, yn ogystal ag ychwanegu rhywfaint o gapasiti. Byddai Eve Alcock, Cyfarwyddwr Materion Cyhoeddus QAA, yn camu i mewn fel arweinydd strategol [wedi'i olygu].

8. [wedi'i olygu]

9. Byddai swydd-ddisgrifiad y Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Busnes ac Ymgysylltu yn cael ei ddiwygio, [wedi'i olygu], a byddai recriwtio i'r swydd wag yn dilyn maes o law.

10. Cyflwynodd VS adroddiad y Prif Weithredwr. [wedi'i olygu] Byddai'r cynnig yn cael ei ddatblygu ymhellach a'i ddwyn yn ôl i'r Bwrdd maes o law. [wedi'i olygu]

11. Roedd y fersiwn nesaf o gynllun addysg draws-wladol QAA (a elwir ar hyn o bryd yn QE-TNE) wedi'i ddatblygu. [wedi'i olygu]

12. Roedd QAA wedi parhau i ymgysylltu'n rheolaidd ag adrannau'r llywodraeth. [wedi'i olygu]

13. [wedi'i olygu] Roedd VS wedi awgrymu gweithdy gyda thîm safonau QAA i ategu'r amcanion hyn.

14. [wedi'i olygu]

15. Rhannodd VS y wybodaeth ddiweddaraf am ei gweithgareddau. Roedd hi wedi cyfarfod ag Academi Addysg Sharjah, a oedd wedi cwblhau datblygu ei safonau yn ddiweddar, ac roedd â diddordeb mewn comisiynu QAA i achredu'r safonau hynny. Roedd hi hefyd wedi mynychu cinio gwobrau Rhwydwaith Datblygu Colegau yng Nglasgow, lle'r oedd gwaith tîm yr Alban i wreiddio'i hun mewn addysg bellach yn amlwg, yn ogystal â'r parch uchel oedd gan y sector i'r tîm.

16. [wedi'i olygu]

17. Roedd VS wedi cael gwahoddiad i draddodi darlith flynyddol AHEP ar y pwnc 'cydweithio heb gymhlethdodau', a fynychwyd gan dros 150 o bobl.

18. Rhoddodd RS y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith gyda Medr, a oedd wrthi o hyd yn sefydlu ei fframwaith rheoleiddio a'r fframwaith ansawdd o fewn hynny. Roedd QAA wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â Medr ac wedi ymateb i'w ymgynghoriad cyhoeddus; roedd yn ystyried y ffordd orau o gynnig cymorth i'w bwyllgor ansawdd. [wedi'i olygu]

19. [wedi'i olygu]

20. [wedi'i olygu] **Camau gweithredu:** RS i ddilyn i fyny gyda NC.

21. Byddai Medr, Cyngor Cyllido'r Alban ac Adran yr Economi yng Ngogledd Iwerddon yn parhau i gefnogi'r cynllun QE-TNE. Roedd y tîm Materion Cyhoeddus wedi trefnu cyfarfod bwrdd-crwn ar addysg drydyddol a datganoli rhanbarthol.

22. Roedd Tom Yates wedi cyflwyno mewn digwyddiad bwrdd-crwn a drefnwyd gan Nic Beech, er mwyn ystyried datganoli trydyddol a rhanbarthol; nododd NB fod potensial i drafod yr allbwn mewn cyfarfod Bwrdd QAA yn y dyfodol,

23. Nododd TY fod Sara Drake wedi cael ei phenodi i gynnal adolygiad llywodraethiant allanol QAA, a fyddai'n digwydd yn 2026. Tan yn ddiweddar, Sara oedd Prif Weithredwr y Sefydliad Llywodraethiant Siartredig, ac yn gyn-aelod o Fwrdd QAA.

Cofrestr Risg Strategol (Eitem 5, BD-25-26-16)

24. Cyflwynodd TY y gofrestr risg wedi'i diweddaru. Roedd y risgiau o amgylch Deallusrwydd Artiffisial (AI) wedi'u gwahanu'n ddwy risg ar wahân mewn ymateb i adborth y Bwrdd. [wedi'i olygu]

25. [wedi'i olygu]

26. **Cymeradwyodd** y Bwrdd y gofrestr risg yn amodol ar y sylwadau a wnaed [wedi'u golygu].

Diweddariad ar y Cynllun Blynyddol (Eitem 6 BD-25-26-17)

27. Cyflwynodd RS y diweddariad ar y cynllun blynyddol a'r dangosyddion perfformiad allweddol. Ar yr adeg hon o'r flwyddyn, roedd y rhan fwyaf o'r llinellau'n felyn, gan ddangos rhywfaint o hyder bod y gweithgaredd ar y trywydd iawn i gael ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn.

28. [wedi'i olygu]

29. [wedi'i olygu]

30. Roedd cynllun gweithredu 'Un QAA' yn gymhleth, gyda nifer o ffrydiau gwaith a blaenoriaethau. Roedd y gwaith ar weithgarwch ymgysylltu â'r aelodaeth a meysydd cyflawni eraill yn parhau ar y trywydd iawn.

31. [wedi'i olygu]

Rhagolwg Chwarter 1 (Eitem 7 BD-25-26-18)

32. Cyflwynodd CB y rhagolwg. [wedi'i olygu]

33. Roedd y tîm Datblygu Busnes o'r farn bod cyfle i gyrraedd y targed ar gyfer incwm rhyngwladol, gan fod y ffynhonnell yn rhagori ar y targed. Byddai CB yn ymchwilio i fanylion y ffynhonnell i sicrhau bod capasiti i gyflawni'r gwaith yn ystod y flwyddyn.

34. [wedi'i olygu]

35. Roedd angen cydbwyso'r ffynhonnell ar gyfer contractau yn erbyn yr adnoddau sydd ar gael, gan y gallai fod cynnydd sydyn yn y llwyth gwaith. Roedd sylw'n cael ei roi i sut roedd prosiectau'n cael eu hadnoddau a'u hintegreiddio i'r cynllunio.

Adroddiad ar Faterion Ariannol (Eitem 8, BD-25-26-19)

36. Cyflwynodd Caroline Blackburn yr adroddiad. [wedi'i olygu] Roedd CB yn gobeithio dod â chanlyniad yr adolygiad buddsoddi i gyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth.

37. [wedi'i olygu]

38. [wedi'i olygu]

39. Roedd Mentrau QAA (*Enterprises*) wedi cael eu diddymu.

40. **Cymeradwyodd** y Bwrdd yr adroddiad, gan nodi bod angen ymchwiliad pellach i brofi paragraff 8.

Adroddiad ar Ganfyddiadau'r Archwiliad Allanol (Eitem 9, BD 25-26-20)

41. Roedd Tara Westcott wedi cyflwyno canfyddiadau'r Archwiliad Allanol i ARC ym mis Tachwedd. Roedd yn farn lân, ac yn llythyr cynrychiolaeth safonol. [wedi'i olygu]

Ymunodd MC â'r cyfarfod.

Adroddiadau ar Adnoddau Dynol (Eitem 10, BD 25-26-21)

42. Cyflwynodd MC yr adroddiadau AD. Nododd y Bwrdd fod rhan o ffrwd waith 'Un QAA' yn edrych ar ffyrdd o weithio a sicrhau llesiant wrth weithio o bell. Roedd angen i gyfathrebu fod yn fwy bwriadol, ac yn dilyn yr ailstrwythuro roedd staff newydd i wreiddio diwylliant â nhw a meithrin cydweithio.

43. Nododd y Bwrdd, gyda'r hyblygrwydd a'r gweithio o bell, fod gan QAA lai o effaith uniongyrchol ar yr amgylchedd gwaith. Roedd iechyd meddwl yn bryder wrth weithio o bell. [wedi'i olygu] Roedd y rhan fwyaf o staff yn gyfforddus yn gofyn am gael anghenion wedi'u diwallu, ac roedd yna lwfans ar gyfer offer ac asesiadau DSE. Roedd y ffiniau rhwng gwaith a chartref yn bwysig ar gyfer cynnal cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

44. Croesawodd KL yr adroddiadau. Holodd a oedd cynnal yr arolwg staff yn flynyddol yn rhy aml, gan awgrymu y gallai caniatáu mwy o amser rhwng arolygon alluogi newidiadau i gael eu gwreiddio a'u hadlewyrchu yn yr ymatebion. **Camau gweithredu:** KL i ddilyn i fyny gyda MC ar arolygon staff.

45. Cododd Nic Beech y cwestiwn o gynllunio olyniaeth. [wedi'i olygu]

46. Roedd arolwg a gynhaliwyd ym mis Awst wedi tynnu sylw at ddau faes oedd yn peri pryder: [wedi'i olygu]

47. [wedi'i olygu]

48. Ychwanegodd RS fod y newidiadau mewn adrodd ar gynlluniau blynyddol yn ddefnyddiol gan eu bod yn cynyddu'r ffocws ar gyflawni.

49. [wedi'i olygu] Cytunodd MC y byddai meincnodi yn ddefnyddiol. Nododd CB fod yr ailstrwythuro wedi creu swyddi newydd a bod y contract â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) wedi arwain at nifer sylweddol o staff newydd. Awgrymodd y dylid adolygu nid yn unig y data hwn ond hefyd ymchwilio i'r rhai sy'n gadael a chadw golwg ar newidiadau hanesyddol.

50. Gofynnodd Caroline Carter ynghylch gweithio o bell a gweithio hyblyg; cadarnhaodd MC fod gan QAA ddarlun da o'r effaith ar lesiant pobl a bod arfer da yn cael ei rannu'n fewnol.

51. [wedi'i olygu]

Gadawodd MC y cyfarfod.

28ain Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol gydag Aelodau'r Cwmni

Yn bresennol

Aelodau'r Bwrdd

Rachid Hourizi (yn cadeirio'r cyfarfod)
Jimena Alamo
Nic Beech
Nicky Callow
Caroline Carter
Fazal Dad
Phil Deans
Alex Fraser
Odette Hutchinson
Lucy Jones
Richard Kaldhi
Karl Leydecker
Mirjam Plantinga
Dani Saghafi
Peter Vermeulen

Cynrychiolwyr aelodau awdurdodedig y Cwmni

Karl Leydecker (yn cynrychioli Prifysgolion yr Alban)
Lucy Jones (yn cynrychioli GuildHE)
Beth Cooper (yn cynrychioli Prifysgolion y DU)
Chris Laity (yn cynrychioli Prifysgolion Cymru)

Swyddogion

Vicki Stott (Prif Weithredwr)
Tom Yates (Cyfarwyddwr Gweithredol Materion Corfforaethol)
Rob Stroud (Cyfarwyddwr Gweithredol Sicrhau Ansawdd a Gwelliant)
Caroline Blackburn (Prif Swyddog Gweithredol a Chyllid)
Rachel Hill-Kelly (Ysgrifennydd Cynorthwyol y Cwmni)

Penderfyniadau

Penderfyniad 1- Adroddiad y Cadeirydd i Aelodau'r Cwmni a Chofnodion y 26ain Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (Eitem 11, BD 24-26-22)

1. Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r bwrdd a'r cwmni i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Christian Brodie, Alex Stanley a Moira Fischbacher-Smith.

2. **Cymeradwywyd** cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2024.

Penderfyniad 2 - Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol QAA 2023-2024 a Datganiadau Ariannol QAAE (Eitem 12, BD-25-26-23)

3. **Cymeradwywyd** yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol.

4. **Cymeradwywyd** y Llythyr Cynrychiolaeth.

5. Penderfynodd Aelodau'r Bwrdd a'r Cwmni awdurdodi CB a TY i lofnodi'r ddwy ddogfen.

6. **Cymeradwywyd** ailbenodiad Crowe fel archwilwyr ar gyfer 2025-26**;** byddai ail-dendro am archwilydd ar gyfer QAA yn digwydd yn 2026.

7. Daeth y cadeirydd â'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i ben.

Bwrdd QAA gydag Aelodau'r Cwmni

Diweddariad ar Faterion Cyfredol gan y Prif Weithredwr (Eitem 13, Eitem Lafar)

8. Cyflwynodd VS ddiweddariad ar faterion cyfredol. Yn yr Alban, roedd y dull Adolygu Ansawdd Gwelliant Trydyddol wedi'i weithredu a'i ehangu fel y bwriadwyd. Roedd dau adolygiad wedi'u cyflwyno a'u cyhoeddi, gyda'r ddau sefydliad yn derbyn canlyniadau cadarnhaol. Roedd wyth adolygiad ar y gweill ar hyn o bryd, ac roedd naw wedi'u trefnu ar gyfer 2026–27. Roedd y rhaglen welliant (STEP) hefyd wedi'i lansio, â thema teithiau dysgwyr amrywiol, ac fe'i hategir gan dîm oedd â'r holl adnoddau angenrheidiol ar gael iddynt.

9. Yng Nghymru, yn ystod blwyddyn lawn gyntaf grant Medr, gwelwyd gweithgareddau i gynorthwyo gwelliant, ochr-yn-ochr â chefnogaeth i ddatblygu'r gyfundrefn reoleiddio a'r cylchred ansawdd. Parhaodd y gwaith ar y dull Adolygu Gwelliant Ansawdd yn dilyn cwblhau'r ddau adolygiad cyntaf yn llwyddiannus.

10. Yng Ngogledd Iwerddon, roedd Adran yr Economi wedi cadarnhau bod QAA yn cael eu comisiynu i adolygu trefniadau ansawdd. Roedd gwaith arall yn parhau i fod wedi'i gyfyngu i'r hyn mae aelodaeth QAA yn ei gynnig. [wedi'i olygu]

11. Roedd QAA wedi cyhoeddi set newydd o Gynghorion a Chanllawiau ar gyfer y Côd Ansawdd, ac roedd yr egwyddorion sy'n weddill yn cael eu datblygu ar gyfer 2026. Roedd y cyhoeddiadau newydd wedi cael derbyniad da yn y sector, ac roeddent hefyd yn cael eu defnyddio'n weithredol mewn sgyrsiau polisi a rheoleiddio fel cyfeirbwynt ar gyfer ansawdd.

12. Roedd QAA wedi cyflwyno eu hadroddiad dilynol i ENQA, a oedd wedi'i groesawu; roeddent yn cydnabod bod yr ailstrwythuro a'r diwygio a wnaed wedi bod yn fuddiol. Roedd hyfforddiant wedi'i ddarparu ynghylch y Safonau a'r Canllawiau Ewropeaidd (ESG), archwilio mewnol, a pholisïau sicrhau ansawdd mewnol, ac roedd QAA yn cyfrannu at yr ymgynghoriad ar ESG ar ei newydd wedd.

13. Fel rhan o waith QAA i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, roedd angen iddynt reoli lefel uchel o weithgarwch, gan gynnwys un asesiad anghyffredin. Cytunwyd ar amrywiad i'r contract; sefydlwyd pwyllgor cynghori newydd o'r Bwrdd i oruchwylio darpariaeth QAA [wedi'i olygu].

14. Roedd Adolygiad Ansawdd Rhyngwladol (IQR) ac Achrediad Rhaglenni Rhyngwladol (IPA) wedi parhau i dyfu, gyda ffynonellau cryf yn yr Emiradau Arabaidd Unedig, Fietnam, Canolbarth Asia, a marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg mewn mannau eraill fel Canada. Roedd gwaith ar y gweill i uno'r Adolygiad Ansawdd Dewisol yn y DU ag IQR.

15. Parhaodd y rhaglen o Brosiectau Gwelliant Cydweithredol: Roedd Cam 5 wedi cefnogi 17 o brosiectau ar draws 70 o sefydliadau ledled y byd, a byddai Cam 6 yn cael ei ehangu gyda mwy o gyllid ac adnoddau ychwanegol fel prosiect blaenllaw i QAA.

16. Ar lefel polisi, roedd QAA wedi gweithredu fel cynghorydd allweddol ar ddiwygio addysg uwch a safonau addysgu, [wedi'i olygu]. Roedd QAA wedi cyflwyno tystiolaeth i ymchwiliad Covid-19.

17. [wedi'i olygu]

18. [wedi'i olygu]

19. Roedd prosiectau'r Adran Busnes a Masnach a'r Cyngor Prydeinig mewn sawl gwlad flaenoriaeth wedi sefydlu QAA fel partner amlwg ar addysg drawswladol, gan sicrhau bod persbectif polisi'r DU wedi'i wreiddio mewn arfer rhyngwladol. Roedd y cynllun QE-TNE wedi'i ddiwygio trwy ymgynghori, gyda rhai sesiynau adborth i ddod o hyd. Roedd disgwyl i'r cynllun newydd gael ei lansio ddiwedd mis Chwefror, a dechrau ym mis Awst 2026. Byddai UUK a GuildHE yn comisiynu'r cynllun, fel o'r blaen [wedi'i olygu]. Roedd Medr wedi cytuno i'w gymeradwyo [wedi'i olygu].

20. Roedd y fframwaith newydd ar gyfer y cynllun cydnabyddiaeth Mynediad i AU wedi'i gyflwyno, gan gryfhau sicrwydd a darparu sail gliriach ar gyfer rheoleiddio. Roedd y potensial ar gyfer diploma Mynediad i AU rhyngwladol wedi cael ei drafod gan y pwyllgor QAA perthnasol, a byddai'r Bwrdd yn ei ystyried yn ddiweddarach. [wedi'i olygu]

21. Gofynnodd y Cadeirydd i ba raddau yr oedd trafodaethau strategol yn ystod diwrnod cwrdd-i-ffwrdd diweddar y Bwrdd yn dylanwadu ar gyfeiriad teithio QAA. Nododd VS fod mewnbwn y Bwrdd wedi bod yn ddefnyddiol iawn wrth lunio meddwl, a bod y Pwyllgor Gwaith yn gweithio ar achosion busnes ar gyfer nifer o syniadau a oedd yn ymgorffori barn y Bwrdd ar yr hyn y byddai'r sector yn ei chael yn werthfawr. Byddai QAA yn dechrau ailysgrifennu eu strategaeth ar gyfer 2027 ymlaen yn y flwyddyn newydd, a byddai'n ymgynghori'n eang o fewn y sector i ategu ei datblygiad.

22. [wedi'i olygu]

23. Diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r cwmni am fynychu.

Gadawodd Aelodau'r Cwmni'r cyfarfod.

Busnes Bwrdd/Pwyllgor QAA

Adroddiad Blynyddol ar Gwynion, Apeliadau a Chamau Cyfreithiol (Eitem 14, BD -25/-26-24)

61. Cyflwynodd RHK yr adroddiad. [wedi'i olygu]

62. Nododd y Bwrdd fod Cadeirydd Panel Apêl a dau Ddirprwy Gadeirydd wedi'u penodi, gan fodloni argymhelliad ENQA yn eu hadroddiad diwethaf am fecanwaith ar gyfer mwy o gysondeb yng nghanlyniadau apeliadau.

Diweddariad ar y Diploma Mynediad i Addysg Uwch Rhyngwladol (Eitem 15 BD-25-26-25)

63. Darparodd RS y wybodaeth ddiweddaraf am y diploma Mynediad i AU rhyngwladol. [wedi'i olygu]

64. Nodwyd bod risgiau newydd yn dod i'r amlwg sy'n gysylltiedig â'r diploma rhyngwladol, nad oeddent yn rhan o'r dirwedd pan ddechreuodd y gwaith yn wreiddiol cyn Covid; [wedi'i olygu].

65. Roedd ARLC wedi dod i'r casgliad na allai argymell bod y diploma'n mynd yn ei flaen. Yn lle hynny, argymhelliad QAA oedd rhoi'r gorau i'r cynllun peilot. [wedi'i olygu] Byddai'r Prif Weithredwr yn anfon llythyr at randdeiliaid i gadarnhau'r penderfyniad.

66. Gwnaeth Rachid Hourizi sylw, fel cadeirydd ARLC. [wedi'i olygu]

67. [wedi'i olygu]

68. **Cymeradwyodd** y Bwrdd yr argymhelliad i roi'r gorau i weithgarwch ar y diploma Mynediad i Addysg Uwch rhyngwladol.

Adroddiad gan y Pwyllgorau (Eitem 16, BD-25-26-26)

69. Pwyllgor Cynghori ar y Contract â NMC: Nododd Lucy Jones fod y pwyllgor wedi darparu mewnbwn i'r Pwyllgor Archwilio a Risg [wedi'i olygu]. Cynigiwyd newidiadau i gylch gorchwyl y pwyllgor, yn ymwneud â therminoleg a phenodi aelod 'lleyg', arbenigwr trwy brofiad neu ddefnyddiwr. **Cymeradwyodd** y Bwrdd y newidiadau i'r cylch gorchwyl

70. Pwyllgor Cynghori Strategol y Myfyrwyr (SSAC): Adroddodd Jimena Alamo fod diwrnod sefydlu wyneb-yn-wyneb wedi'i gynnal ar gyfer aelodau newydd SSAC. Yn eu cyfarfod cyntaf, roedd SSAC wedi cytuno ar eu blaenoriaethau fel a ganlyn:

    - Cost ymgysylltu i fyfyrwyr;
    - Cynorthwyo myfyrwyr i ddeall deallusrwydd artiffisial; a
    - Lleoli SSAC o fewn yr Asiantaeth a'r sector ehangach.

71. Soniodd Rob Stroud fod ymgysylltiad myfyrwyr wedi'i nodi mewn cynlluniau blynyddol blaenorol QAA [wedi'u golygu]. Roedd y gwaith hwn bellach wedi'i gyflwyno i SSAC i alinio adnoddau mewnol a gwneud cynnydd. Byddai gofyn i SSAC gyfrannu at ddatblygiad y strategaeth newydd. Pwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd ymgysylltiad myfyrwyr a gofynnodd a oedd angen unrhyw fewnbwn gan y Bwrdd ehangach. Cadarnhaodd Jimena Alamo nad oedd angen dim ar hyn o bryd, ond awgrymodd y gellid ceisio mewnbwn i flaenoriaethau yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

72. Bwrdd Ymgynghorol: Adroddodd TY ar gyfarfod mis Tachwedd, a oedd wedi cynnwys y rownd arferol o ddiweddariadau gan randdeiliaid. Roedd y cyfarfod wedi cynnwys cyflwyniad [wedi'i olygu] ar waith gwirio graddau, darparwyr twyllodrus a'r rhai sy'n gweithredu mewn 'maes annelwig' lle'r oedd dilysrwydd yn aneglur neu'n amwys. Roedd nifer y darparwyr o'r fath yn sylweddol ac yn fwy na nifer y darparwyr sydd wedi cofrestru â Swyddfa'r Myfyrwyr. Byddai'r mater hwn yn cael ei gyflwyno eto i gyfarfod y Bwrdd Ymgynghorol yn y dyfodol i'w drafod ymhellach yn dilyn trafodaethau rhwng cyrff y sector.

73. Roedd y Pwyllgor Archwilio a Risg wedi cymeradwyo eu hadroddiad blynyddol i'r Bwrdd (Eitem 17) ac wedi derbyn yr adroddiad ar gydymffurfiaeth QAA â Mesur y Gymraeg. [wedi'i olygu]

74. Pwyllgor Mynediad, Cydnabyddiaeth a Thrwyddedu (ARLC) Adroddodd RH ar gyfarfod ARLC ar 8 Rhagfyr. Yn y cyfarfod hwnnw, roedd y Pwyllgor wedi trafod y tair Asiantaeth Dilysu Mynediad gyntaf a oedd yn symud ymlaen trwy'r cynllun newydd ac wedi ystyried cais am drwydded pum mlynedd. Byddai ARLC yn gwneud argymhelliad i'r Bwrdd ym mis Mawrth.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Risg i'r Bwrdd (Eitem 17, BD-25-26-27)

75. Cyflwynodd KL yr adroddiad. Roedd yr adroddiad blynyddol i'r Bwrdd yn rhoi darlun o ddyfnder y craffu gan ARC. Y ffocws allweddol ar gyfer y flwyddyn nesaf i'r Pwyllgor fyddai tendr a phenodi archwilydd. Ar adeg ail-dendro, byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyd y contract [wedi'i olygu].

76. Roedd Dani Saghafi bellach yn cymryd yr awenau fel cadeirydd ARC; nododd y Bwrdd hyn a diolchodd i KL am ei wasanaeth.

Unrhyw Fusnes Arall

77. Doedd dim Diolchodd y Cadeirydd i'r Bwrdd am eu hymgysylltiad yn ystod y flwyddyn ac i dîm QAA am eu cefnogaeth.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

78. Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Mercher, 11 Mawrth 2026.

Cofnod:	**Camau gweithredu:**	**Perchennog:**	**Dyddiad cwblhau:**	**Diweddariad:**
25-26-20	**Camau gweithredu:** RS i ddilyn i fyny gyda NC ar brosiect hunan-werthuso ar y cyd	RS		
25-26-44	**Camau gweithredu:** KL i ddilyn i fyny gyda MC ar arolygon staff.	KL		